

Cydraddoldeb ac
Amrywiaeth
Equality and Diversity



Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Monitro Blynyddol
2020 – 2021



monmouthshire
sir fynwy

Cynnwys

Rheoli Fersiwn	1
Cyflwyniad a Chyd-destun Polisi	2
Cyd-destun Deddfwriaethol	3
Amcanion Cydraddoldeb Strategol : Cynnydd 2020-21	5
Atodiad 1 - Cyflawni'r Dyletswyddau Penodol	
Atodiad 2 – Cyfathrebu â Phreswylwyr	29

Rheoli Fersiwn

Teitl	Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blynyddol 2020 – 2021
Pwrpas	Dogfen gyfreithiol sy'n ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
Perchennog	Swyddog Cydraddoldeb a Pholisi'r Iaith Gymraeg
Cymeradwywyd gan	Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf
Dyddiad	18/11/2021
Rhif Fersiwn	1.0
Statws	Wedi gymeradwyo
Amledd Adolygu	Yn flynyddol
Dyddiad yr adolygiad nesaf	18/11/2022
Ymgynghori	I'w ystyried gan Bwyllgor Dethol Cymunedau Cryf

Fformatau Amgen

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor yn

<https://www.monmouthshire.gov.uk/equality-and-diversity>

Os oes arnoch angen copi caled o'r ddogfen hon neu gopi mewn fformat gwahanol e.e. print bras, Braille, fersiwn sain, fformat geiriau ar gyfer darllenwyr sgrin ayyb. a fydddech gystal â chysylltu â'r:

Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1XJ

Ffôn: 01633 644010

E-bost: alanburkitt@monmouthshire.gov.uk

Cyflwyniad a Chyd-destun Polisi

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn yn ymdrin â chynnydd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar Fawrth 2021. Hwn yw'r adroddiad cyntaf ar gyfer trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y cynghorau a gymeradwywyd gan y Cyngor ar y 5ed o Fawrth 2020 ac mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn y ddau flaenorol.

Gallwch gyrchu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diweddaraf ar wefan y cyngor yn: <https://www.monmouthshire.gov.uk/equality-and-diversity/>

Dolenni i'r strategaethau

Cymeradwywyd trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024 y Cyngor gan y Cyngor ar y 5ed o Fawrth 2020. Mae'n bwysig nodi nad yw'n gynllun annibynnol ac mae ganddo gysylltiadau agos â nifer o gynlluniau allweddol eraill y cyngor, ac â phartneriaethau, strategaethau, polisiau a chynlluniau cenedlaethol allweddol eraill. Mae rhai o'r rhain yn canolbwytio'n benodol ar gydraddoldeb ac mae eraill wedi cynnwys cydraddoldeb fel un o'r themâu allweddol. Dyma enghreifftiau:

- Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol 2017 - 2022
- Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- Cymraeg 2050 (1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050)
- Strategaeth Mwy na Geiriau/More than words 2011 a 2016
- Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy 2011-21
- Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru Cyfnod 3
- Cynllun Llesiant Cyngor Sir Fynwy 2018
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 1af Ebrill 2016
- Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 nid yn unig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol a phenodol a amlygir isod, ond mae hefyd yn rhoi cyfle iddo ddangos ei ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb sydd wedi bod yn nodwedd o'i swyddogaethau cyn gweithredu'r Ddeddf.

Ein Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol

Mae Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol y Cyngor yn dangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i bobl a chymunedau'r sir. Mae wedi cael ei gyrru gan awydd y cyngor i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a amlygwyd yn yr asesiadau llesiant ac anghenion poblogaeth a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dilyn pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r cynllun cydraddoldeb strategol yn cyd-fynd â'r strategaeth hon, gan ddarparu mwy o fanylion am rai o'r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y sir

Amcanion cydraddoldeb strategol Sir Fynwy 2020-2024

Yr amcanion strategol y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yw:

- Rhoi i blant y dechrau gorau posibl mewn bywyd gan oresgyn rhwystrau i gyflawniad a chyfle
- Goresgyn anghydraddoldebau mewn mynediad i ffyniant economaidd
- Creu cymunedau cydlynus
- Darparu gwasanaethau sy'n hygyrch i'n cyhoedd a chefnogi'n gweithlu.
- Creu gweithlu amrywiol a chynhwysol
- Lleihau'r bwlch mewn cyflog rhwng y rhywiau

Cyd-destun Deddfwriaethol

Dyletswydd Gyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Wrth arfer ei swyddogaethau mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r canlynol:

1. dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheiny nad ydynt;
3. meithrin perthnasoedd gyda phobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheiny nad ydynt;

Mae'r Ddeddf yn egluro bod rhoi sylw teilwng i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- Dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i rai pobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae'u cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Y Ddyletswydd Benodol yng Nghymru

Diben bras y dyletswyddau penodol yw helpu cyrff cyhoeddus, fel y Cyngor hwn, wrth iddynt gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, a chynorthwyo tryloywder. Yng Nghymru mae'r dyletswyddau penodol wedi'u gosod gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Y canlynol yw'r dyletswyddau penodol:

- Gosod amcanion cydraddoldeb a chyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb strategol
- Ymgysylltu

- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau mewn cyflogau a hyfforddiant staff
- Caffael
- Adrodd a chyhoeddi

Amcanion Cydraddoldeb Strategol: Cynnydd

2020-21

Mae'r adran hon yn disgrifio rhai o'r pethau penodol yr ydym wedi'u gwneud sy'n cyd-fynd â'r amcanion a osodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ac rydym hefyd wedi cynnwys rhai enghreifftiau o arfer da sy'n dod o dan ymbarél eang yr amcanion.

Amcan strategol 1: Rhoi i blant y dechrau gorau posibl mewn bywyd gan oresgyn rhwystrau i gyflawniad a chyfle

Canlyniad Dymunol: Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cefnogi i wella'u llesiant

Gweithred: Datblygu llwybr ymyrraeth gynnar ac atal integredig i gefnogi plant a theuluoedd ar y cyfle cyntaf a lleihau'r angen am atal statudol i gadw'n ddiogel y bobl â Phrofiadau Plentyndod Andwyol (PPAau).

Cynnydd: Cwblhawyd

Canlyniad Dymunol: Mae plant yn cyflawni'u potensial llawn.

Gweithred: Mapio'r ddarpariaeth gyfredol i gefnogi disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim drwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) a Sir Fynwy, nodi unrhyw fylchau a gweithio gyda'r GCA a phartneriaid ehangach i ddatblygu strategaeth gydlynol i godi cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim a chau'r bwlch rhwng y disgyblion sy'n cael PYADd a'r disgyblion hynny nad ydynt yn cael PYADd.

Cynnydd: Mae hwn yn ddarn o waith parhaus a fydd yn parhau drwy oes y cynllun hwn a thu hwnt – 2020 – 2024.

Canlyniad Dymunol: Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cefnogi i wella'u llesiant (culhau canlyniad y bwlch)

Gweithred 1: Datblygu Partneriaeth 0 - 25 effeithiol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Gweithred 2: Datblygu Rhaglen Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned.

Cynnydd 1 : Mae'r grŵp Cynnig Ieuenctid Integredig (CII) yn parhau i ddatblygu Rhwydwaith Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (GCI) ledled y sir, sy'n dwyn ynghyd yr holl ddarparwyr gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd y rhwydwaith hwn yn ein galluogi i ddeall y 'cynnig' i'n plant a'n pobl ifanc yn well a sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaethau cyfartal ar draws pob maes, a'n bod yn deall pa gefnogaeth a chymorth y gallwn eu cynnig i'r darparwyr yn ein rhwydwaith GCI i'w helpu i barhau i ddarparu gweithgareddau yn ein cymunedau.

Cynnydd 2 : Mae'r Rhaglen Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned yn rhaglen barhaus a bydd yn parhau i ddatblygu wrth i amser fynd yn ei flaen.

Canlyniad Dymunol: Mae plant a phobl ifanc yn cael digon o gyfle i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau corfforol

Gweithredu: Cyflawni asesiad digonolrwydd Chwarae (ADCh)

Cynnydd: Cafodd y cynllun gweithredu digonolrwydd chwarae blaenorol gymeradwyaeth ym mis Mai 2019 ac mae'r cynnydd wedi bod yn dda (mae adroddiad llawn nawr ar gael). Mae cynllun newydd ar waith ar gyfer 2021/22 gyda'r adolygiad 3 blynedd llawn nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 2022. Mae targed newydd wedi'i nodi sy'n ymwneud â chynyddu nifer y cyfleoedd chwarae sefydlog i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Canlyniad Dymunol: Mae plant a phobl ifanc yn cael digon o gyfle i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau corfforol

Gweithredu: Cyflenwi'r rhaglen arweinyddiaeth gwneuthurwr-chwarae i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i gefnogi hyder, cymhelliant, llesiant a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol

Cynnydd: Cyflenwyd i bob carfan ym mlwyddyn 5 yn flynyddol.

Canlyniad Dymunol: Mae plant ag anableddau yn gallu cyrchu cyfleusterau chwaraeon. Ch

Gweithredu: Gosod cynllun gweithredu yn ei le i gyflawni'r Wobr Aur mewn Chwaraeon i'r Anabl.

Cynnydd: Mae Swyddog Datblygu Iechyd, Cymunedau a Chynhwysiant MonLife yn sefydlu'r man cychwyn ar gyfer y llwybr i Aur trwy edrych yn ôl ac adolygu'r adborth o'r Achrediad Arian a datblygu proses ymgynghori a Gweledigaeth Sir Fynwy ar gyfer yr Aur. Y pedwar sector partneriaeth a nodwyd fel meysydd allweddol ar gyfer cynnydd yw, Addysg, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a maes gwasanaeth ehangach Mon Life. Mae'r cynllun gweithredu ar waith a'r targed yw cyflawni Cam 1 y Weledigaeth ar gyfer Datblygu Chwaraeon Aur erbyn yr 31^{ain}

Canlyniad Dymunol: Mae plant a phobl ifanc yn cael digon o gyfle i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau corfforol

Gweithredu: Lleihau'r anghydraddoldebau mewn graddfeydd gweithgaredd corfforol rhwng gwrywod a menywod gyda'r rhaglenni Gall y Merched a Gwragedd yn Gryfach gyda'i Gilydd

Cynnydd: Cyflenwyd i bob carfan ym mlwyddyn 5 yn flynyddol.

Canlyniad Dymunol: Mae gan bobl ddigartref neu bobl dan fygythiad digartrefedd well mynediad i lety a chymorth

Gweithredu 1: Gweithredu'r Cynllun Pontio'r Digartref dan y Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol ehangach

Gweithredu 2: Adolygu gwasanaethau drwy gyfrwng Grant Cymorth Tai

Cynnydd 1: Cyflawnir y Cynllun Pontio rhwng 2021 – Rhagfyr 2023.

Cynnydd 2: Yn dilyn adolygiad a dadansoddiad o anghenion, mae Cymorth Tai sy'n gweithio ar y cyd â Gwasanaethau Plant yn uwchraddio'r hosteli cyfredol ac yn symud i ddarpariaeth Uchel, Ganolig ac Isel. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo fynd yn fyw ym mis Hydref 2021

Arfer da: Darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ymysg plant ynghylch mwy o bynciau tabŵ (pryder, galar, bwlio ac ati) a'r ystod eang o gyflyrau sy'n bodoli ac sydd wedi cael diagnosis a sut maent yn amlygu eu hunain o ran ymddygiadau ac ati.

Gweithredu: Lanswyd darllen Llyfrau Byw'n Dda ar Bresgripsiwn ar gyfer plant yng Nghymru ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl 2020 (7^{fed} Ebrill).

Cynnydd: Mae'r llyfrau'n delio â phynciau o bryder a galar, i fwlio a diogelwch ar y we, i sut i ymdopi â digwyddiadau yn y newyddion. Mae'r rhestr lyfrau hefyd yn archwilio byw'n dda gydag ystod o gyflyrau gafodd ddiagnosis gan gynnwys Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Sylw (AGDS), Anhwylder Sbectrum Awtistiaeth (ASA), dyslecsia, Anhwylder Gorfodaeth Obsesiynol (AGO) ac anabledau corfforol.

Mae'r rhestr lyfrau wedi'i thargedu at blant yng Nghyfnod Allweddol 2 ac mae'n cynnwys teitlau sy'n addas ar gyfer ystod eang o lefelau darllen i gefnogi darllenwyr llai hyderus, ac i annog plant, ynghyd â'u brodyr a'u chwiorydd a'u gofawyr, i ddarllen. Mae'r llyfrau ar gael o unrhyw un o'n llyfrgelloedd

Arfer da: cefnogi pobl ifanc sy'n Cefnogi pobl ifanc sy'n cael trafferth â'u rhywioldeb, sy'n archwilio i **LHDTC+**, neu sy'n gyfeillion i'r rhai sy'n **LHDTC+**.

Gweithredu: Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn rhedeg grwpiau **LHDTC+** ar draws y sir.

Cynnydd: Mae pob sesiwn a gynhelir yn canolbwyntio ar yr unigolyn lle mae'r agenda'n cael ei chyfarwyddo gan y bobl ifanc, gyda Gweithwyr Cymorth Ieuenctid cymwys yn eu cefnogi. Yn ogystal, mae prosiect SHIFT yn gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau gyda phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ar gyfer materion **LHDTC** - mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys eiriolaeth a chynrychiolaeth i rieni sy'n ei chael hi'n anodd dod i delerau â rhywioldeb eu plant, newid rhyw a pheidio â chydymffurfio â rhyw (anneuaidd).

Arfer da: Rhoi llais i bobl ifanc.

Gweithredu: Pobl ifanc yn cwrdd â Chabinet Cyngor Sir Fynwy

Cynnydd: O fewn Arolwg Pobl Ifanc Gwneud Eich Marc ledled Cymru, pleidleisiodd pobl ifanc mai trafndiaeth oedd y brif flaenoriaeth i bobl ifanc. Heriasant pam fod cost trafndiaeth gyhoeddus yr un peth i berson ifanc ag i oedolyn. Mae Fforwm Ieuenctid Ymgysylltu i Newid wedi trafod hyn gydag aelodau'r cabinet ac wedi eu herio i ostwng y pris i wneud Sir Fynwy yn Wyrddach i bobl ifanc. Yn gymharol, mae gan y rhai dros 65 oed yng Nghymru gludiant cyhoeddus rhad ac am ddim, ac mae'r Fforwm wedi gofyn am ostyngiad ac iddo beidio â bod yn rhydd o dâl.

Arfer da : Rhedeg y Cynllun Arweinyddiaeth

Cynnydd: Prif amcan y Cynllun Arweinyddiaeth yw rhoi cyfle i blant fagu eu hyder. Trwy ysbrydoli plant yn ifanc, gobeithio y bydd yn eu hannog i gyflwyno eu syniadau a rhannu syniadau eu cyfoedion i greu effaith. Trwy'r pandemig cynhaliwyd cyfarfodydd misol gyda llysgenhadon blwyddyn 6 i rannu eu harfer da a chreu syniadau newydd gydag eraill.

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu greddo	
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	
Priodas neu bartneriaeth sifil		Iaith Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth		Tlodi	
Hil			

Amcan strategol 2: Goresgyn anghydraddoldebau mewn mynediad i ffyniant economaidd

Canlyniad Dymunol: Mae mwy o bobl â mynediad i fand eang cyflym

Gweithredu: Cynyddu argaeledd a manteisio ar fand eang ar draws y sir i fynd i'r afael ag allgau digidol

Cynnydd: Aeth Cynllun Gweithredu Seilwaith Digidol wedi'i ddiweddarau i'r Cabinet yng Ngorffennaf 2020

Canlyniad Dymunol: Mae gan bobl gyfle i godi incwm eu cartref

Gweithredu: Gweithio fel rhan o Brifddinas - Ranbarth Caerdydd i ddenu swyddi sy'n gofyn am sgiliau uchel ac yn cynnig cyflogau uchel

Cynnydd: Cynhelir cyfarfodydd diweddarau misol rheolaidd gyda Chyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r cyfarfodydd hyn a fynychir gan ein Harweinydd, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion ar gyfer Adnoddau a Menter a Phennaeth Menter a Bywiocáu Cymunedol yn trafod cyfleoedd pellach ar gyfer mewnfuddsoddi a thwf swyddi yn y Sir.

Canlyniad Dymunol: Mae gan bobl gyfle i godi incwm eu cartref

Gweithredu: Cyflwyno'r rhaglen cymunedau ar gyfer gwaith i leihau nifer y bobl sydd mewn tlodi, neu sydd mewn perygl o dlodi

Cynnydd: Bydd y rhaglen hon yn ei lle erbyn Mawrth 2022

Canlyniad Dymunol: Gall cartrefi gynyddu eu hincwm i'r eithaf a lleihau eu treuliau.

Gweithredu: Parhau i ddatblygu cynllun mynd i'r afael â thlodi ar gyfer y sir sy'n cyd-fynd â dyheadau'r Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol.

Cynnydd: Cyflwynwyd y Cynllun Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anghydraddoldeb i'r Cabinet i'w gymeradwyo ar 3^{ydd} Mawrth 2021 fel rhan o drydydd adolygiad y Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn 2021 - 2022 i ddechrau ond bydd yn cael ei gyflwyno i mewn i'r blynyddoedd dilynol

Canlyniad Dymunol: Gostyngiad yn nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth

Gweithredu: Darparu dysgu, hyfforddiant a chyflogadwyedd i bobl ifanc 11 i 24 oed

Cynnydd: Inspire2achieve ac Inspire2work yn cael eu hariannu tan Ragfyr 2022

Canlyniad Dymunol: Mwy o bobl ag anableddau a phobl sy'n gadael gofal mewn cyflogaeth

Gweithredu: Darparu mynediad i'r farchnad lafur i bobl ag anableddau a 'r rhai sy'n gadael gofal

Cynnydd: Mae pobl ag anableddau a'r rhai sy'n gadael gofal yn rhan o'r broses gyfsweld Warantedig (gweithredwyd hyn ar y 3^{ydd} o Fawrth 2020)

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu greddo	x
Anabledd	x	Rhyw	
Ailbennu rhywedd		Cyfeiriadedd rhywiol	
Priodas neu bartneriaeth sifil		Iaith Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	
Hil	x		

Amcan strategol 3: Creu cymunedau cydlynus

Canlyniad Dymunol: Mae gwell data ar gael am fwlio ar sail casineb

Gweithredu: Gwella cofnodi digwyddiadau o fwlio ar sail casineb a threialu ymyriadau priodol

Cynnydd: Mae'r Grŵp Cynhwysiant Bwlio wedi penderfynu cyflwyno proses gofnodi Llywodraeth Cymru ledled y sir. Trafodir y broses hon gyda Phrifathrawon gyda'r nod o geisio sicrhau lefel o gysondeb yn y data a gesglir. Unwaith y bydd y broses wedi'i chwblhau a'i chytuno, bydd yn cael ei chyflwyno i bob ysgol.

Canlyniad Dymunol: Mwy o ymwybyddiaeth o effaith bwlio ar sail casineb ymhlith plant ifanc yn yr ysgol

Gweithredu: Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth yng nghlwstwr Cas-gwent i ddechrau ac yna trefnu ar gyfer y sesiynau ledled y sir

Cynnydd: Cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth ar ffurf grŵp pypedau yng nghlwstwr Cas-gwent ac ar y cyfan cawsant groeso mawr. Mae Covid wedi gohirio cyflwyno sesiynau pellach er y rhagwelir y bydd sesiynau pellach yn cael eu trefnu ar gyfer 2021-2022.

Canlyniad Dymunol: Mwy o ymwybyddiaeth o ganlyniadau casineb a gwahaniaethu mewn cymdeithas

Gweithredu: Cynnal digwyddiad blynyddol i Goffáu'r Holocost yn un o'r Hybiau Cymunedol

Cynnydd: Cynhaliodd y cyngor ddigwyddiadau Holocost ar-lein eleni ar 27^{ain} Ionawr mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Coffáu'r Holocost. Mae'r digwyddiad hwn i gofio'r miliynau a laddwyd yn yr Holocost, dan erledigaeth y Natsïaid ac mewn hil-laddiad dilynol yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.

Canlyniad Dymunol: Mwy o ymwybyddiaeth ymysg plant o beryglon bwlio yn ei holl ffurfiau

Gweithredu: Hyrwyddo Wythnos Gwrth -Fwlio yn flynyddol

Cynnydd: Hyrwyddir hon yn flynyddol gan y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol.

Canlyniad Dymunol: Gostyngiad yn effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd

Gweithredu: Cyflawni'r canlyniadau o dan Gynllun Cysylltiedig Sir Fynwy.

Cynnydd: Mae ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned yn allweddol wrth ddeall dulliau lleol o gefnogi'r rhai y mae'r agenda hon yn effeithio arnynt - beth sy'n bodoli a ble mae'n digwydd, pwy sy'n mynychu ac i'r gwrthwyneb, yr hyn nad yw'n bodoli, pam lai a phwy sydd ei angen. Mae ymgysylltu â'n poblogaeth hŷn wedi bod yn syml a chyn Covid, roedd yna lawer o gyfleoedd i'r garfan hon barhau i ymgysylltu a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol oedd o ddiddordeb iddyn nhw. Yn yr un modd, mae ein pobl iau wedi ymgysylltu trwy ein Fforwm Ieuenctid Sir Fynwy a grwpiau ieuenctid eraill. Mae hon wedi bod yn broses hawdd i'w chyflawni.

Cydnabuwyd yn eang bod angen i ni ddeall yn well y rhai sy'n eistedd yng nghanol y ddwy garfan hon; ein poblogaeth o oedran gweithio. Cymerwyd camau i geisio deall 'mesurau unigrwydd,' a datblygwyd arolwg gyda dwy thema ar unigrwydd ac arwahanrwydd (U ac A):

1. o fewn yr amgylchedd gwaith,
2. o fewn y gymuned lle mae unigolion yn byw

Dadansoddwyd y ddemograffeg i fesur a oes unrhyw gydberthynas rhwng y ddau.

Defnyddiwyd gweithwyr y cyngor fel y 'peilot' ar gyfer yr arolwg a chafwyd cymeradwyaeth gan yr holl Undebau Llafur perthnasol ar gyfer y dull hwn. Gwnaed sawl ymgais i wthio'r arolwg allan ar draws pob tîm ac adran, gan gydnabod nad oes gan bob aelod o staff fynediad at gyfathrebu digidol. Y sefyllfa bresennol yw bod yr arolwg yn dal ar agor, ac mae croeso i bob cydweithiwr gymryd rhan, yn ddiennw, i helpu i lywio camau posibl y gallai fod angen i'r cyngor eu gweithredu.

Canlyniad Dymunol: Goresgyn y rhwystrau i gael mynediad i drafnidiaeth yn yr ardaloedd gwledig

Gweithredu: Datblygu datrysiadau digidol i gynyddu mynediad at atebion trafnidiaeth wledig gan ddefnyddio cynllun cronfa her GovTech a ariennir gan Swyddfa'r Cabinet

Cynnydd: Mae'r cyflenwr penodedig, Box Clever Digital, wedi datblygu plattform digidol o'r enw ffynnu sy'n cyfuno cynlluniwr taith, cynllun rhannu lifft yn ddiogel ac archebu ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw. Mae'r profion wedi cael eu gohirio gan y pandemig.

Arfer da: Cefnogi pobl ifanc sy'n mynd trwy ail-bennu rhywedd

Gweithredu: Cefnogaeth gan Gynllun SHIFT

Cynnydd: Mae'r Prosiect Shift yn cefnogi mwy o bobl ifanc trwy ailbennu rhywedd. Yn ogystal â hyn mae'r bobl ifanc sy'n mynd trwy eu cyfnod pontio wedi bod yn cyrchu'r darpariaethau mynediad agored ledled y sir. Mae hyn wedi bod yn bosibl gan fod y Tîm Shift wedi gallu helpu i hybu hunan-barch lle mae pobl ifanc sy'n byw yn eu rhyw ddewisol yn teimlo'n hyderus i 'ddod allan' mewn lleoliad cymdeithasol.

Arfer da: Y Cynllun Merch a Bachgen

Gweithredu: Y Tîm leuenctid i ddarparu cefnogaeth i grwpiau o bobl ifanc ar feysydd penodol o lesiant.

Cynnydd: Mae'r Gwasanaeth leuenctid yn cynnig prosiect MERCH a BACHGEN. Mae hwn yn grŵp wedi'i dargedu sy'n cynnig cefnogaeth i grwpiau o bobl ifanc i drafod pynciau fel iechyd rhywiol, gorbryder cymdeithasol, materion ysgol a materion eraill sy'n effeithio ar eu llesiant. Pwrpas cynnig cefnogaeth i rywiau penodol yw galluogi pobl ifanc i drafod profiadau a materion yn agored mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n gysurus, yn cael cefnogaeth ac yn dawel eu meddwl.

Nodweddion Gwarchodedig

Oedran	x	Crefydd neu greddo	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil	x	Iaith Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	
Hil	x		

Amcan strategol 4: Darparu gwasanaethau sy'n hygyrch i'n cyhoedd ac yn cefnogi'n gweithlu.

Canlyniad Dymunol: Sicrhau ein bod yn ystyried ein cynulleidfa amrywiol pan ydym yn cyfathrebu fel cyngor

Gweithredu: Glynu'n barhaus at Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu Cyhoeddus

Cynnydd: Ymgysylltu parhaus gan ddefnyddio'r holl blatfformau ymgysylltu sydd ar gael

Canlyniad Dymunol: Gwefan gwbl hygyrch sy'n darparu gwybodaeth am wasanaethau'r cyngor

Gweithredu: Adnewyddu gwefan y cyngor i sicrhau ei bod yn cwrdd â chanllawiau hygyrchedd diweddaraf ar gynnwys gwe

Cynnydd: Mae gwefan y cyngor wedi bod yn destun prosiect hygyrchedd gwefan o'r enw WCAG 2.1. Mae'r canlyniadau'n dangos cynnydd mesuradwy yn ei sgôr hygyrchedd yn unol â'r meini prawf sgorio. Mae cyllid ar gael i alluogi'r prosiect rhagorol hwn i barhau ar gyfer 2021 - 2022.

Canlyniad Dymunol: Mae mwy o wasanaethau ar gael yn ddigidol felly'n gwella hygyrchedd

Gweithredu: Parhau i sicrhau bod mwy o wasanaethau ar gael yn ddigidol trwy ap y cyngor a'r Chatbot

Cynnydd: Mae mwy o ffurflenni ar gael yn cynyddu gallu pobl i hunan-wasanaethu, gan gynyddu hygyrchedd gwasanaethau. Dylai hyn ryddhau gallu staff i alluogi mwy o gapasiti mewn gwasanaethau wyneb yn wyneb a ffôn er bod y pandemig wedi tarfu ar hyn ac wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn galwadau ffôn.

Canlyniad Dymunol: Mynediad wyneb yn wyneb newydd a gwell i wasanaethau'r cyngor

Gweithredu: Agor Hyb Cymunedol newydd yn Y Fenni gyda hygyrchedd sylweddol well

Cynnydd: Agorodd Hwb newydd yn Neuadd y Dref yn y Fenni ar 14^{eg} Medi 2020. Fe wnaethom barhau i redeg unig Swyddfa Bost awdurdod lleol y DU i gynnal y gwasanaeth hanfodol hwn i drigolion Brynbuga

Canlyniad Dymunol: Mae gan breswylwyr Sir Fynwy fynediad i gyngor annibynnol

Gweithredu 1: Parhau i ariannu Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy

Gweithredu 2: Gweithio'n glos gyda'r Prosiect Cyngor Anabledd i gyrchu cyngor o brosiect a ariennir gan y Loteri Fawr

Cynnydd 1 Darperir cyllid grant gan y cyngor yn flynyddol

Cynnydd 2: Nid yw'r Fforwm Mynediad i Bawb sy'n cael ei gadeirio gan aelod o'r Prosiect Cyngor Anabledd wedi cyfarfod ers cychwyn Covid. Y gobaith yw y bydd y grŵp hwn yn cwrdd eto yn fuan, ac yna gellir cyflwyno'r prosiect i drigolion Sir Fynwy..

Canlyniad Dymunol: Gwell gwasanaethau i fynd i'r afael ag iechyd meddwl yn Sir Fynwy

Gweithredu 1: Parhau i weithio gyda MIND ar gyflawni'r prosiect iechyd meddwl Gwledig

Gweithredu 2: Gwella'r gefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl yn y gweithlu

Cynnydd 1: Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno y bydd iechyd meddwl yn parhau i fod yn faes ffocws â blaenoriaeth wrth symud ymlaen. Rydym yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo gwefan Melo sy'n darparu offer a gwybodaeth hunangyfeiriedig haen sylfaenol gynhwysol, iechyd meddwl a llesiant yn seiliedig ar dystiolaeth a chyfeirio at wasanaethau lle bo angen

he PSB has agreed mental health will continue to be a priority area of focus moving forward. We are continuing to work with our colleagues in PHW to promote the Melo website which provides foundation tier universal, evidence based mental health & well-being self-directed support tools and information and, signposting to services where necessary.

Cynnydd 2: Mae yna ystod o gefnogaeth sy'n hygyrch i bob cydweithiwr e.e. - cwnsela / y grŵp GO TO / sgwrs anffurfiol rhwng cymheiriaid / hyfforddi / mentora / cwnsela / Iechyd Galwedigaethol.

Canlyniad Dymunol: Gwella gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd yn ystod y 1001 o ddiwrnodau ym mywyd eu plentyn

Gweithredu: Datblygu cefnogaeth sy'n hygyrch yn gyffredinol ar gyfer mamau ôl-enedigol a phlant yn y blynyddoedd cynnar iawn gan gynnwys bwydo babanod ac ymyrraeth datblygiad plant.

Cynnydd: Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r targed hwn yw Mawrth 2022.

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu gredo	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil		Iaith Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil	x		

Amcan strategol 5: Creu gweithlu amrywiol a chynhwysol

Canlyniad Dymunol: Mae'r rheiny sy'n gweithio mewn sectorau allweddol fel gofal cartref yn llai tebygol o brofi tlodi mewn gwaith.

Gweithredu: Parhau i dalu'r cyflog byw i holl weithwyr y cyngor

Cynnydd: Mae Polisi Cyflogau CSF ar gyfer 2021/22 yn nodi ymrwymiad y cyngor i Gyflog Byw. Cadarnhawyd hyn ar 11^{eg} o Fawrth 2021.

Canlyniad Dymunol: Mae mwy o bobl ag anableddau yn ceisio am waith yn y cyngor sir

Gweithredu: Cyflwyno'r cynllun gweithredu i ennill statws Ymrwymiad Hyderus Anabledd

Cynnydd: Ar ôl trafodaethau â chydweithwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau, rydym wedi cyflawni Ymrwymiad Lefel 1 a gallwn ddechrau gweithio tuag at symud ymlaen i statws Cyflogwr Lefel 2. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cytuno i weithredu fel ffrind beirniadol yn y broses hon ac i'n cynorthwyo i gyrraedd lefel 2.

Canlyniad Dymunol: Gall pobl gyrchu mwy o wasanaethau yn gyflawn gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg

Gweithredu: Targedu cyfleoedd gwaith newydd yn rhagweithiol at siaradwyr Cymraeg.

Cynnydd: Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad o broses recriwtio'r cyngor ac mae'r gallu i siarad Cymraeg bellach wedi'i gynnwys yn yr adran fanyleb person safonol gan alluogi'r sgiliau hynny i gael eu cyfrif tuag at y broses sgorio ar gyfer cam y rhestr fer. Bydd hyfforddiant

Cymraeg hefyd ar gael i staff sydd â diffyg hyder neu sydd angen gwella'r sgiliau presennol er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a all ddarparu gwasanaeth i aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yn y broses o drafod gyda rheolwyr gwasanaethau rheng flaen ynglŷn â threfnu peilot i 10 aelod o staff gymryd rhan mewn cwrs Cymraeg cyflym, gan ychwanegu ymhellach at yr aelodau staff presennol sy'n siarad Cymraeg.

Canlyniad Dymunol: Gweithlu mwy amrywiol

Gweithredu: Cyflwyno mwy o gyfleoedd graddedig ac intern a chadetiaeth i gynyddu amrywiaeth y gweithlu

Cynnydd: Mae'r Strategaeth Interniaid Graddedig Prentis (IGP) yn cael ei gweithredu dros gyfnod 2021 – 2024

Gweithredu: Cynllun Cyfweld Gwarantedig ar gyfer milwyr wrth gefn, cyn-filwyr a'u priod.

Cynnydd: Mae'r Cyngor wedi cytuno i hyn ac mae'r cynllun bellach ar waith i gynorthwyo'r bobl uchod i ddechrau gyrfa gyda'r cyngor

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu gredo	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil	x	Iaith Gymraeg	x
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil	x		

Amcan strategol 6: Lleihau'r bwloch mewn cyflogau rhwng y rhywiau

Canlyniad Dymunol: Cyfraniad tuag at dorri'r cylch o Stereoteipio ar sail Rhyw sy'n bodoli mewn cymdeithas ac sy'n cael effaith negyddol ar gydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau.

Gweithredu 1: Cyhoeddi Adroddiad Cyflogau Blynyddol

Gweithredu 2: Edrych ar ffyrdd amgen o recriwtio staff i dorri lawr y rhwystrau o stereoteipio ar sail rhyw

Cynnydd 1: Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn flynyddol fel un o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 trwy'r adroddiad monitro blynyddol. Mae system tâl a graddio'r cyngor yn seiliedig ar 'gyflog cyfartal am waith gwerth cyfartal' a thrwy ein proses gwerthuso swyddi mae dynion a menywod yn cael eu talu (yr un peth) am rôl y swydd y maent yn ei chyflawni. Rydym ni fel cyflogwr eisiau i'n staff gyflawni'r gwaith sy'n fwyaf addas i'w galluoedd a derbyn yr un parch ac ystyriaeth, waeth beth fo'u rhyw. Os gallwn gefnogi dynion a menywod sy'n gweithio mewn rolau rhyw-nodweddiadol, fel cymdeithas efallai y gallwn ddod yn llai tebygol o ddad-brisio rhai gweithwyr ar sail ystrydebau rhyw mympwyol a hen-ffasiwn.

Cynnydd 2: Mae'r cyngor yn ofalus i sicrhau nad ydym yn atgyfnerthu stereoteipio ar sail rhyw ac mae ein hymgyrchoedd recriwtio yn ystyried materion o'r fath. Er enghraifft, rydym yn deall bod iaith a dewis geiriau mewn hysbyseb a delweddau mewn ymgyrch yn hanfodol er mwyn osgoi rhagfarn rywiol anfwriadol. O ganlyniad, rydym yn gweld newidiadau ar draws meysydd a ddominyddwyd yn flaenorol gan ddynion a menywod ... rydym yn gweld effaith yng nghyfansoddiad y gweithlu mewn rhai meysydd ac rydym yn gweithio tuag at ddod yn fwy cytbwys. Er bod newidiadau gweithlu demograffig yn digwydd, mae rolau cymdeithasol sydd wedi hen ymwreiddio a mathau stereo yn arafach i esblygu. Mae ymwybyddiaeth yn allweddol ac rydym yn cydnabod y gall hyfforddiant i reolwyr helpu felly ar raddfa ehangach, yn ychwanegol at ein hyfforddiant recriwtio mwy diogel, rydym yn cyflwyno hyfforddiant rhagfarn anymwybodol yn 2021 fel rhan o'n Cynllun Hyfforddi i gefnogi arweinwyr pobl.

Canlyniad: Deall gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau yn ein sefydliad

Gweithredu: Casglu a dadansoddi data rhyw

Cynnydd: Mae gofyniad statudol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i adrodd yn flynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. Nod yr adroddiad hwn yw mynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n peri pryder fel rhan o'r adroddiad monitro blynyddol Strategol ac fe'i cyhoeddir ar wefan y cyngor.

Canlyniad: Cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal

Gweithredu: Adolygu Strategaeth y Bobl gan sicrhau bod data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu defnyddio i lywio'r strategaeth

Cynnydd: Mae'r Cytundeb Statws Sengl a phroses Gwerthuso Swyddi yn sicrhau cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal. Disgwylir i Strategaeth y Bobl gael ei hadolygu ym mis Medi 2022 a bydd ein data bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu defnyddio i lywio hyn.

Canlyniad Dymunol: Wedi lleihau gwahaniaethau mewn cyflog yn y Sir

Gweithredu: Mesurau wedi eu hychwanegu at y Cynllun Corfforaethol

Cynnydd: Mae hwn yn fater parhaus, gan ddefnyddio'n statws fel y cyflogwr mwyaf yn y sir i ddylanwadu ar gyflogwyr eraill ym maes cyflog rhwng y rhywiau.

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu gredo	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil	x	Iaith Gymraeg	x
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil	x		

Cyflawni'r Dyletswyddau Penodol

Pwrpas eang y dyletswyddau penodol yw helpu cyrff cyhoeddus, fel y Cyngor hwn, wrth iddynt gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, a chynorthwyo tryloywder. Yng Nghymru mae'r dyletswyddau penodol yn cael eu gosod gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r adran hon yn disgrifio sut rydym wedi cyflawni'r dyletswyddau hyn.

Gosod amcanion cydraddoldeb a chyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb strategol

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb strategol yn rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor yn y cyfansoddiad ac mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Mae'r Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf (Craffu) yn adolygu'r adroddiad monitro blynyddol yn flynyddol. Mae Grŵp Cyngori ar Gyfiawnder Cymdeithasol hefyd wedi'i sefydlu, dan gadeiryddiaeth aelod y Cabinet, mae'r grŵp hwn yn rhoi cyfeiriad i'r agenda ac yn sicrhau bod y cyngor yn symud ymlaen â'r nodau y cytunodd arnynt.

Ymgysylltu

Mae trosolwg manwl o'r ymgysylltu â grwpiau â nodweddion gwarchoddedig wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Ymhlith y grwpiau penodol yr ydym yn ymgysylltu â nhw (yn allanol ac yn fewnol gyda chynrychiolaeth partneriaeth allanol) mae:

Fforwm Mynediad i Bawb, Gweithredu 50+ Y Fenni, Grŵp Nam ar eu Golwg Trefynwy, Grŵp Rhanddeiliaid Awtistiaeth Sir Fynwy, Grŵp Gweithredu Sir Fynwy (Mynd i'r afael ag effeithiau anghydraddoldeb)

Dros y 7 i 8 mlynedd diwethaf, mae'r Fforwm Mynediad i Bawb wedi gweithredu fel ffrind beirniadol gwerthfawr i'r cyngor ac wedi caniatáu i grwpiau ac unigolion anabl drafod materion sy'n effeithio arnynt a gofyn cwestiynau i'r cyngor.

Mae'r Fforwm 50+ wedi'i drefnu'n allanol ac mae'n rhoi cyfle i'r aelodau fod yn 'llais' i bobl hŷn yn Sir Fynwy trwy ymgynghoriadau, holiaduron, arolygon, lledaenu gwybodaeth, rhyngweithio rhwng defnyddwyr gwasanaeth a chyflenwyr gwasanaeth, mewn perthynas â datblygu a darparu gwasanaeth.

Asesu effaith

Ers i'r Ddeddf Cydraddoldeb gyflwyno'r gofyniad i sefydliadau gynnal asesiadau effaith o'u

penderfyniadau, mae'r cyngor wedi diweddarau ei ganllawiau, ei dempledi a'i brosesau herio yn

rheolaidd i sicrhau bod asesiadau'n gadarn, yn gyfredol ac yn ymwybodol o unrhyw

ddatblygiadau newydd. Mae'r fersiwn gyfredol yn cynnwys y gofynion deddfwriaethol canlynol i

ddod yn ddogfen asesu integredig:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 ac ystyriaeth o anghenion y rheiny â nodweddion Gwarchoddedig;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Ebrill 2016,

- Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- Rhianta Corfforaethol
- Diogelu
- Tlodi (wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu Dyletswydd Gymdeithasol-Economaidd yn ystod 2020-21)

Er mwyn sicrhau bod yr Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb (AECau) yn ddigon cadarn i ganiatáu i aelodau etholedig wneud penderfyniadau gwybodus iawn mae is-grŵp sy'n cynnwys y Swyddog Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, y Swyddog Polisi Cynaliadwyedd, y Rheolwr Perfformiad a'r Rheolwr Craffu yn ymgynghoreion ar bob adroddiad a anfonir at y Cabinet, y Cyngor neu benderfyniadau Aelod Sengl. Maent yn adolygu ac yn cynghori ar ansawdd a chadernid holl adroddiadau cysylltiedig AEC sy'n gofyn am benderfyniad. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol i gynnal gwiriadau er mwyn sicrhau ansawdd pellach a chyfathrebu â'r awduron os oes angen gwybodaeth ychwanegol ar yr aseidiadau

Mae'r grŵp bychan hwn yn chwarae rhan allweddol wrth graffu ar y cynigion ar gyfer arbedion yn y broses o osod cyllideb flynyddol gan gynghori uwch swyddogion a rheolwyr ar ansawdd eu hadroddiadau, aseidiadau AEC a hefyd yr effaith gronns negyddol bosibl a ddaw yn sgil codiadau mewn ffioedd a thaliadau ar y rheini sydd leiaf galluog i dalu. Cyflwynwyd y darn pwysig hwn o waith oherwydd y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd newydd.

Gwybodaeth ar gydraddoldeb

I'r Cyngor mae casglu gwybodaeth berthnasol ar gydraddoldeb yn hanfodol o ran adnabod ein defnyddwyr gwasanaeth, eu hanghenion a llunio'r gwasanaethau y mae angen i ni eu darparu. Mae heriau sylweddol yn parhau o ran casglu gwybodaeth gywir mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth, yn enwedig i rai o'r nodweddion mwy "sensitif" o'r nodweddion gwarchoddedig megis cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Rydym wedi datblygu cronfa ddata ar wefan ein mewnwyd i wella argaeledd gwybodaeth am grwpiau sydd â'r nodweddion gwarchoddedig i wella ansawdd ein hasesiadau effaith integredig. Mae'r Cyngor wedi parhau'n gadarn yn ei gefnogaeth i egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gwybodaeth ar gyflogaeth, gwahaniaethau mewn cyflogau a hyfforddiant staff

Mae gennym system casglu data ar-lein sy'n darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y cyngor i ddeall cyfansoddiad ei staff mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig. Mae gwybodaeth am ddechreuwyd newydd yn cael ei chofnodi'n awtomatig ar y system sydd ynddi'i hun yn ddigon cadarn; fodd bynnag, mae'r cofnodion hanesyddol yn colli rhywfaint o wybodaeth allweddol lle nad yw staff wedi llenwi ffurflenni monitro yn llawn gan arwain at ddealltwriaeth anghyflawn o nifer y staff sydd â nodweddion gwarchoddedig. Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth y mae'n ofynnol i ni ei chyhoeddi ar wefan y cyngor yn yr adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar <https://www.monmouthshire.gov.uk/equality-and-diversity/>

Gwybodaeth am Ddisgyblaeth a Chwynion 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021: -	
Nifer y gweithwyr a gododd gwynion	3
Nifer y gweithwyr a gafodd gwynion wedi'u codi yn eu herbyn	12
Nifer y gweithwyr sy'n destun gweithdrefnau disgyblaeth	16

Atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen hon yw adroddiad y Cyngor o'r Bwlch rhwng y Rhywiau ar gyfer 2020 – 2021.

Mae gan raglen sefydlu staff y Cyngor a sesiynau Hyfforddi Rheolwyr sydd ill dau yn cael eu cynnal sawl gwaith y flwyddyn gyfnod penodol sy'n delio â Deddf Cydraddoldeb 2010, cydraddoldebau yn gyffredinol a Safonau Iaith Cymru. Yn ystod pandemig Covid-19, disodlwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb gan hyfforddiant ar-lein trwy blatfform Timau Microsoft.

Caffael

Mae proses Gaffael y Cyngor yn defnyddio dogfennaeth Consortiwm Prynu Cymru a ddatblygwyd i gydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Hefyd, mae'r cyngor wedi ymrwmo i'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Adrodd a chyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a bydd ar gael mewn fformatau amgen ar gais.

Covid 19

Mae pandemig y Coronafeirws a ddechreuodd gydio yn gynnar ganol mis Mawrth 2020 yn parhau i fod yn her ddigynsail i lesiant a ffordd o fyw pobl. Oedwyd gweithgaredd wedi'i gynllunio wrth i staff gael eu hadleoli a gwariant wedi'i dargedu at ymateb coronafeirws y cyngor. Mae wedi bod yn hanfodol bod pob person neu deulu mewn argyfwng yn ymwybodol y gallent gael gafael ar gymorth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'n pwrpas wedi parhau i esblygu i adlewyrchu'r heriau newydd a gyflwynir gan y pandemig, nodau strategol a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r her, a chafodd y sefydliad y dasg o gyflawni'r rhain. Mae'r rhain wedi cynnwys y gwasanaethau allweddol canlynol:

- darparu ysgolion hyb i blant gweithwyr allweddol yn ystod y cyfnod clo;
- ffonio'r 3000 + o gatrrefi cysgodol yn y sir;
- cyflenwi yn y gwasanaeth Orlhain ac Amddiffyn a weithredir mewn partneriaeth rhwng llywodraeth leol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gan ddefnyddio arbenigedd Timau Amddiffyn Cyhoeddus Sir Fynwy a Thorfaen;
- talu milynau o bunnoedd mewn grantiau i gefnogi swyddi mewn busnesau lleol;
- defnyddio'r rhwydwaith gwirfoddoli cymunedol helaeth.
- Ail-ddefnydiwyd cannoedd o aelodau staff hefyd fel y gallai'r cyngor barhau i gyflawni'n ddiogel ei wasanaethau craidd megis casglu gwastraff a gofal cartref.

Atodiad 1

Gwasanaethau Pobl

ADRODDIAD BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2021

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Beth sydd gennym i'w adrodd?	3
Proffil Gweithlu	4
Tâl Bonws	5
Bandiau Cyflog Chwartel	5
Casgliadau	5
Ffactorau sy'n effeithio'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau	6
Yr hyn rydym ni wedi ei wneud	6

Cyflwyniad

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr sydd â 250 neu fwy o weithwyr adrodd am eu Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau bob blwyddyn, gan gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth genedlaethol yn ogystal â gwefan y sefydliad. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn berthnasol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat.

Yn ogystal â'r rheoliadau newydd hyn, mae cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn rhwym wrth ddyletswydd cydraddoldeb benodol yn y sector cyhoeddus mewn perthynas â'u swyddogaethau - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017.

Mae'r rheoliadau'n berthnasol i bob cyflogwr sydd â 250 neu fwy o weithwyr ar y dyddiad "ciplun". Y dyddiad "ciplun" ar gyfer y sector cyhoeddus yw 31 Mawrth bob blwyddyn. Felly, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer pob blwyddyn ar wefan Cyngor Sir Fynwy ac ar wefan y Llywodraeth (GOV.UK), erbyn 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol fan bellaf. Felly, ar gyfer y dyddiad "ciplun" ar 31 Mawrth 2021, mae'n rhaid cyhoeddi'r canfyddiadau erbyn 31 Mawrth 2022 fan bellaf.

Pwrpas adrodd ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yw sicrhau mwy o gydraddoldeb rhywiol ledled y DU a chynyddu tryloywder cyflog. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ddadansoddiad o ddisbarthiad rhyw ar draws y gweithlu.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i egwyddor gyflog gyfartal i'r holl weithwyr trwy sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb. Er mwyn cyflawni hyn, cyflwynodd y Cyngor Statws Sengl ac mae'n defnyddio cynllun gwerthuso swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf (CTLIF) i asesu gwerth holl swyddi'r Cydgyngor Cenedlaethol (CGC) ar draws y sefydliad, sy'n darparu tystiolaeth i gefnogi bandio pob swydd o fewn ein strwythur graddio. Telir cyflogau yn ôl band ac mae dilyniant blynyddol cynyddrannol o fewn y band yn digwydd waeth beth fo rhyw'r gweithiwr.


Beth sydd gennym i'w adrodd?

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gyhoeddi'r wybodaeth ganlynol:

- Y bwch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau;
- Y bwch cyflog canolrif rhwng y rhywiau;
- Y bwch cyflog bonws cymedrig;
- Y bwch cyflog bonws canolrif;
- Cyfrannau cymharol gweithwyr gwrywaidd a benywaidd ym mhob band cyflog chwarterl.

Proffil Gweithlu

O'r 'ciplun dyddiad' ar 31 Mawrth 2021 roedd proffil gweithlu'r Cyngor at ddibenion yr adroddiad hwn fel a ganlyn:



Gwryw 32.9% Benyw 67.1%

Y cymarebau rhyw Llawn Amser a Rhan Amser oedd:




Rhan Amser 4.31:0.23

Llawm Amser 1.01:0.98

Bwlch Cyflog Rhyw Cymedrig

Cyflog rhyw cymedrig (cyfartalog) y DU
7.9%

Y bwlch yw **18.2%** sy'n gynydd
ers Ebrill 2020.




Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth yn ôl yr awr rhwng enillion cyfartalog dynion a menywod



Bwlch Cyflog Canolrif rhwng y Rhywiau

Roedd y bwlch cyflog canolrif yn y DU yn 2021 yn 15.9% ac mae wedi codi ychydig i 16.2%.



Y bwlch cyflog canolrif yw'r gwahaniaeth rhwng y pwyntiau canol yng ngraddau cyflogau dynion a menywod yn ôl yr awr.


Tâl Bonws

Nid yw Cyngor Sir Fynwy wedi gweithredu unrhyw gynlluniau bonws ers 2009 - ar ôl cyflwyno Statws Sengl.


Bwlch Tâl Bonws 0%

Bandiau Cyflog Chwarterel


Chwarterel Cyflog Is
£8,026.00 - £21,322.00




Chwarterel Cyflog Canol Is
£21,322.00 - £23,541.00



Chwarterel Cyflog Canol Isaf
£23,541.00 - £31,346.00



Chwarterel Uchaf
£31,346.00 - £119,955.00



Casgliadau

Y Bwlch Cyflog Cymedrig rhwng y Rhywiau ar gyfer yr holl weithwyr ar **31 Mawrth 2021** oedd **6.33%**, gwahaniaeth o £ 0.93 yr awr rhwng y ddau ryw.

Y Bwlch Cyflog Cymedrig (cyfartalog) Rhwng y Rhywiau yn y DU 2021 yw 18.2% sy'n gynydd o 7.9% ers Ebrill 2020.

Y Bwlch Cyflog Canolrif ar gyfer yr holl weithwyr ar **31 Mawrth 2021** oedd **7.64%**, rywfaint yn is nag arolwg ONS 2021, a oedd yn **16.2%**. Gwir wahaniaeth mewn graddfeydd yn ôl yr awr **£0.99**.

Y Bwlch Cyflog Canolrif Rhwng y Rhywiau yn y DU 2020 oedd 15.9%. Yn 2021 mae wedi codi fymryn i 16.2%.

Mae'r Dadansoddiad Chwartzel yn dangos, yn y Canol Isaf, y bu gostyngiad yng nghanran y gwrywod o 33.21% i 27.39%, ond mae cyfran gymharol sefydlog o ferched i ddyonion fel y byddech chi'n ei ddisgwyl yn seiliedig ar gyfran gyffredinol y gweithwyr sef 32.86 % gwrywaidd i 67.14% benywaidd. Mae cyfran y gwrywod i fenywod yn cynyddu yn y chwartzeli Uchaf.

Ffactorau'n effeithio ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Effeithir yn fawr ar y bwlch cyflog gan gyfansoddiad gweithlu'r Cyngor a'i ddsbarthiad.

Mae mwyafrif staff y Cyngor yn y graddau is, mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog cyffredinol yn cael ei ystumio, gan adlewyrchu cyfansoddiad y gweithlu yn hytrach nag anghydraddoldebau cyflog. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn Glanhau, Arlwy a Gofal Cymdeithasol, sydd â gweithlu benywaidd mawr sydd, yn gyffredinol, yn gweithio mwy o oriau rhan amser, yn hytrach na rolau sy'n cael eu dominyddu gan wrywod mewn meysydd fel Priffyrdd, Gwastraff a Thirwedd sy'n tueddu i weithio oriau llawn amser. Felly, mae'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn gymaint o fwlch cymdeithasol â bwlch cyflog pur.

Mae gan y Cyngor weithlu sefydlog iawn ac ar gyfer **2020/2021** roedd ganddo gyfradd trosiant isel ar **7.69%**, sy'n golygu mai dim ond ychydig o swyddi gwag sy'n rhoi cyfle i newid yng nghyfansoddiad y gweithlu.

Yr hyn rydym ni wedi ei wneud

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i gydraddoldeb yn y gweithle ar ôl cymryd sawl mesur eisoes i sicrhau ei fod yn gyflogwr teg a chyfiawn trwy:

- Sicrhau cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal gan ddefnyddio gwerthuso swydd.
- Mae gan strwythur graddio Cyngor Sir Fynwy 13 gradd gyda 5 cynyddran mewn deg o'r graddau, 3 cynyddran mewn dwy o'r graddau a 4 cynyddran mewn un o'r graddau. Mae'r graddau'n rhychwantu ar draws SCP 1- 51 gyda chyflogau cysylltiedig o £17,842 (SCP 1) i £55,195 (SCP 51). Mae mwy o wybodaeth am Gyngor Taleithiol Llundain Fwyaf a'r graddau i'w gweld yng Nghydgytundeb Statws Sengl y Cyngor.
Cyflwynodd gweithredu'r golofn gyflog newydd ar 1 Ebrill 2019 isafswm pwynt colofn gyflog o £9.00 yr awr, a oedd yn unol â'r raddfa a osodwyd gan y Sefydliad cyflog Byw. Y lleiafswm pwynt colofn gyflog ddaw i rym o 1 Ebrill 2020 yw £9.25 yr awr.
- Hyrwyddo a chefnogi nifer o arferion gweithio hyblyg ar gyfer gweithwyr o fewn y sefydliad, waeth beth fo'u rhyw. Mae'r rhain yn cynnwys rhannu swydd, gweithio rhan amser a gweithio yn ystod tymor. Mae polisïau Adnoddau Dynol megis Absenoldeb Teulu yn cynrychioli cyfle i'r holl weithwyr gyrchu ystod o drefniadau sy'n addas i deuluoedd. Ar draws nifer o feysydd busnes mae lle i weithwyr, waeth beth fo'u rhyw, allu gweithio mewn modd ystwyth hyblyg, i weithio o wahanol leoliadau.

Mae'r Cyngor felly'n hyderus nad yw ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu gweithwyr gwrywaidd a benywaidd yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfatebol. Yn hytrach, mae ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ganlyniad i'r rolau y mae dynion a menywod yn gweithio yn y Cyngor a'r cyflogau y mae'r rolau hyn yn eu denu.

Atodiad 2

Cyfathrebiadau i breswylwyr Sir Fynwy sydd â nodweddion gwarchoddedig 2020-21

Mai 2020

- Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn annog aelodau o'r gymuned a wahoddir i gymryd rhan mewn gwirfoddoli i gefnogi'r bregus a'r oeddrannus yn ystod y cyfnodau clo. Anogir pobl o bob cefndir i helpu gyda siopa, casglu presgripsiynau a chynnig galwadau cyfeillgar i gadw llygad ar gymdogion.
- Dathliadau diwedd rhyfel gan gynnwys fideo yn dangos preswylwyr o bob oedran yn canu 'We'll Meet Again'

Mehafin 2020

- Gweminar ffrydio byw o setliad yr UE i ennyn diddordeb pobl y mae'r newidiadau a ddaeth yn sgil Brexit yn effeithio arnynt
- Cyhoeddusrwydd drwy'r cyfryngau cymdeithasol gyda'r nod o dynnu sylw at y cyfleoedd cyllido sydd ar gael ar gyfer addoldai i helpu i'w diogelu rhag troseddau casineb
- Cefnogaeth i rieni a phobl ifanc ynghylch dychwelyd i'r ysgol wedi'r cyfnod clo
- Cynnwys i ennyn diddordeb pobl ifanc tra maent gartref
- Ymgyrch ar gyfer Wythnos y Lluoedd Arfog gan gydnabod cyfraniadau rhagorol cydweithwyr yn y Lluoedd Arfog gan gynnwys menywod sydd wedi gwasanaethu/sydd yn gwasanaethu
- Cyfryngau cymdeithasol ochr yn ochr â Chydraddoldeb Hil yn Gyntaf (Race Equality First) yn hyrwyddo cystadleuaeth i greu poster gwrth-hiliaeth
- Roedd ymgyrch wythnos y gofalwyr yn canolbwyntio ar gefnogaeth i'r holl ofalwyr di-dâl. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys gofalwr ifanc sy'n helpu i edrych ar ôl ei brawd ifanc sydd â Syndrom Down ac sydd angen cefnogaeth lefel uchel. Roedd yr ymgyrch hefyd yn cynnwys sgwrs ffrydio byw am ofalu di-dâl a pha gymorth oedd ar gael ar gyfer pobl sy'n gofalu am anwyliaid, a fideo yn diolch am yr holl waith mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud.
- Cyngor COVID-19 parhaus - cyngor a chefnogaeth i breswylwyr a busnesau

Gorffennaf 2020

- Ymgyrch maethu yn tynnu sylw at nifer o weithgareddau y gall pobl ifanc eu gwneud dros wyliau'r haf tra rydym yn hyrwyddo gofal maeth
- Digwyddiad ffrydio byw yn diolch i wirfoddolwyr sydd wedi cefnogi'r oeddrannus a'r bregus yn ystod y pandemig

- Hyrwyddo'n barhaus y gwaith ardderchog a gyflawnwyd gan wirfoddolwyr gan gynnwys fideo yn dangos person ifanc a oedd yn gwirfoddoli amser i helpu banciau bwyd yng Nghas-gwent.
- Hyrwyddo ailagor gwasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys siopa/parciau chwarae ar gyfer plant
- Cyngor COVID-19 parhaus - cyngor a chefnogaeth i breswylwyr a busnesau

Awst 2020

- Ymgyrch a chyhoedduswyd o amgylch Wythnos Balchder Rhithwir Cymru a dathlu'r cymunedau amrywiol yn y sir
- Ymgyrch maethu yn tynnu sylw at nifer o weithgareddau y gall pobl ifanc eu gwneud dros wyliau'r haf tra rydym yn hyrwyddo gofal maeth
- Ymgyrch fideo yn estyn allan at bobl o bob oedran yn recriwtio pobl i ddod yn ofalwyr maeth therapiwtig
- Cyngor COVID-19 parhaus - cyngor a chefnogaeth i breswylwyr a busnesau
- Ymgynghori ar deithio llesol
- Ymgysylltu o gwmpas ailagor canolfannau hamdden ac annog pobl o bob oedran i gyrchu'r gwasanaethau unwaith eto

Medi 2020

- Lansio prosiect yr Oergell Gymunedol i helpu i leihau gwastraff bwyd ac yn ei sgil helpu'r bobl sy'n wynebu tlodi yng Nghyngor Sir Fynwy
- Cynhaliwyd ymgysylltu ffrydio byw ar gynllun y setliad Ewropeaidd.
- Ymgyrch faethu yn annog pobl i ddod yn ofalwyr maeth a chefnogi pobl ifanc agored i niwed. Yn gynwysedig, fideo ffrydio byw yn cynnwys holi ac ateb
- Fideo yn darparu cefnogaeth a chynngor ar gwrselwyr ysgol i gefnogi pobl ifanc yn yr ysgolion
- Ymgyrch Byddwch yn Ddewr, Ailgylchwch i annog ailgylchu a lleihau gwastraff
- Agor Hyb Cymunedol newydd Y Fenni

Hydref 2020

- Cyfleu negeseuon cadw'n ddiogel o gwmpas tymor Calangaeaf.
- Galw am wirfoddolwyr i gefnogi'r bregus yn ystod misoedd y gaeaf, gan gynnwys fideo yn dangos gwaith rhagorol gwirfoddolwyr
- Ymgysylltu o gwmpas cefnogaeth gan fusnesau i gefnogi pobl ifanc i mewn i waith gyda phrentisiaethau
- Hyrwyddo dychwelyd MonGames a'r nod o gadw pobl ifanc yn egniol yn ystod toriad hanner tymor

- Cefnogaeth Cyngor Sir Fynwy i ddiwrnod coch Gwisgwch Goch i Ddangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
- Hyrwyddo “Wythnos Troseddau Casineb” gyda chyngor a chefnogaeth i unrhyw un sy’n dioddef unrhyw fath o drosedd casineb.
- Hyrwyddo Gwisgwch Felyn i gefnogi ymwybyddiaeth iechyd meddwl Promotion of Wear Yellow to support mental health awareness
- Cyngor COVID-19 parhaus - cyngor a chefnogaeth i breswylwyr a busnesau

Tachwedd 2020

- Ymgyrch flynyddol “Wythnos Gofal” gyda’r nod o recriwtio mwy o bobl i mewn i swyddi gofal cymdeithasol
- Lansio ymgyrch Nadolig / Siopwch yn Lleol
- Cefnogaeth i fusnesau yn ystod cyfnod atal byr y clo
- Lansiodd her gerdded i blant Mewn Angen i godi arian ar gyfer yr elusen. Codwyd dros £6000 gan ysgolion a cholegau yn Sir Fynwy
- Hyrwyddo prentisiaethau gofal yn Sir Fynwy a sut mae’n helpu i gefnogi’r preswylwyr mwyaf bregus yn y sir
- Cynnwys Diwrnod y Cofio ar draws y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys defod ddiogel COVID a gyhoeddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cyngor diogelwch o amgylch Noson Tân Gwylt

Rhagfyr 2020

- Cyhoeddiad setliad y Gyllideb
- Ffrydiau byw Siopwch yn Lleol yn cael eu cynnal ar draws y sir
- Cyngor a chefnogaeth i breswylwyr yn ystod yr ŵyl
- Cyngor COVID parhaus
- Helpwch Ni i Helpu’ch Cymunedau – galwadau i gefnogi’r bregus yn ystod misoedd y gaeaf

Ionawr 2020

- Cefnogaeth o gwmpas iechyd meddwl yn ystod Ionawr
- Diweddariadau ar dywydd y gaeaf
- Sesiynau ffrydio byw cyngor busnes i gefnogi busnesau yn ystod y cyfnod heriol
- Ymgysylltu â’r gyllideb – sesiynau ffrydio byw i ateb cwestiynau, ymgynghori ar-lein, datganiadau i’r wasg
- Ymgysylltu â’r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig
- Fideo yn dangos y preswlydd cyntaf yn Sir Fynwy yn derbyn brechiad COVID, Charlotte Jones, yn 93 oed, oedd y fenyw gyntaf i fod yn Feddyg Teulu yn Nhrefynwy

Chwefror 2020

- Annog pobl ifanc i bleidleisio yn ymgyrch etholiad y
- Diweddariadau ar dywydd y gaeaf
- Wythnos brentisiaeth yn hyrwyddo prentisiaethau ar gyfer pobl ifanc yn Sir Fynwy
- Ymgysylltu â'r gyllideb

Mawrth 2020

- Cyngor a chefnogaeth brechu
- Hyrwyddiadau "Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth"
- Ymgysylltu â'r etholiad gan sicrhau bod preswylwyr yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar gyfer yr etholiad sydd i ddod ym Mai
- Ymgyrch i annog pobl i lanw'r cyfrifiad
- Cefnogaeth ar gyfer busnesau lleol